Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod 26 Chwefror 2019

Presennol: J. Roberts (Cadeirydd); S. Edwards; (Is-gadeirydd), A. Mummery, A. Jones, G. Parry, G. C. Jones, R. Meirion Jones; Mervyn Jones; A. Williams; G.C. Jones.
Cynghorydd Sirol R. Williams.
Anwen Le Cras (Clerc dros dro)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**: D. Jones; I. Gruffydd; H. Huws; H. Ellis; E. Parry.		
2.0	**Datganiadau o Ddiddordeb**.		
2.1	G. Parry ac A. Jones yn datgan diddordeb mewn unrhyw faterion yn ymwneud a'r Clwb Bowlio		
3.0	**Cyfrifon a Thaliadau Mis Chwefror 2019.**		
3.1	Cyflwynwyd rhestr taliadau a thaenlen blynyddol. Cynigwyd gan A. Mummery ac eiliwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y daenlen a chytunwyd i'r taliadau.		
4.0	**Cynrychiolwyr pwyllgorau allanol.**		
4.1	Gwasanaeth bws 43 a 47 yn cael ei derfynu. Gwasanaeth 42 yn cael ei ailgyfeirio trwy'r pentref dwy waith y dydd.		
4.2	R.M. Jones wedi holi ynglŷn a ceisiadau cynllunio. Ar hyn o bryd yn cael eu anfon drwy e-bost ond nid ar gael ar lein yn amserol.	Clerc i anfon ymlaen fel maent yn cael eu derbyn.	
4.3	G.C. Jones a H. Huws am fynychu Gweithdy Gwastraff Ymbelydrol yn Llandudno.		
4.4	Gofynnwyd am adroddiad ysgrifenedig yn fisol gan y Cynghorwyr Sirol. Cytunwyd i'r cais.		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Ionawr 29 2019**		
5.1	Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan M. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.		
6.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
6.1	Arian gan Ffrindiau Parc y Gors.	Clerc i holi Aled Evans.	
6.2	Gordyfiant Pen Lôn Llan.	Clerc i adrodd i CSYM.	
6.3	Twll yn y fynwent.	Clerc i drefnu ei lenwi.	
6.4	Cais grant Clwb Pêl-droed Iau i wella'r pafiliwn.	S. Edwards i ofyn am fwy o wybodaeth	
6.5	Tystiolaeth o ddefnydd cyffuriau wedi'u darganfod yn y Gors.	Clerc adrodd i'r PCSO lle	
6.6	Sbwriel yn y Gors, angen edrych ar ailgylchu poteli a chaniau	Clerc i ofyn i gwmni Humphreys am bris.	
7.0	**Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion Pwyllgor Neuadd Goffa 12 Ionawr**		
7.1	Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan J. Roberts. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.		
8.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		

8.1	Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan G. C. Jones fod biliau trydan y clwb snwcer yn cael eu talu o gyfrif y Cyngor Bro ac nid o'r Neuadd Goffa gan fod y biliau yn uwch na'r arian dderbynnir o'r clwb snwcer yn fisol. Cytunwyd i'r Cyngor Bro gymryd cyfrifoldeb am gostau trydan y Clwb Snwcer.		
8.2	Ffioedd hurio'r Neuadd Goffa. Cytunwyd i godi'r ffioedd i £10.00 yr awr o mis Ebrill 2019.		
9.0	**Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo**		
9.1	Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan S. Edwards, derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.		
10.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
10.1	Hysbysebu swydd Gofalwr y Gors/Amgylchedd	Clerc, S. Edwards	
10.2	Cytundeb torri gwair ar gyfer y Gors.	Clerc i weithredu ar frys.	
10.3	Nodwyd fod archebu 5 golau Nadolig arall yn rhy gostus.		
10.4	Cais Adam Roberts I brynu tir ger y toiledau. Nodwyd bod angen dilyn trefn swyddogol I werthu tir cyhoeddus.	Clerc i gysylltu â CSYM a Swyddfa DVS	
10.5	Llinellau melyn Ffordd Penmynydd a Bryn Salem	Y Clerc i roi cais i CSYM	
10.6	Gwifren trydan angen sylw brys ar y pafiliwn	Clerc i gysylltu â Scottish Power.	
10.7	Goleuadau Maes Aml Bwrpas	Clerc i ofyn i Now Parry	
11.0	**Y Gors – gohirio'r eitem yma**		
12.0	**Ceisiadau Cynllunio – dim wedi'u derbyn**		
13.0	**Gohebiaeth**		
13.1	Cylchgrawn Clerks and Councils Direct		
13.2	Llythyr o ddiolch am y rhodd o £300 gan Hosbis dewi Sant / Ynys Môn		
13.3	Ymgynghoriad Canllawiau Cynllunio		
14.0	**Materion Brys**		
14.1	Y sleid fawr yn y Gors. Andre Le Cras wedi cael golwg arno, am ofyn i D. Morris greu darn I'w atgyweirio.		
14.2	Polyn Lôn hen ysgol yn beryglus yn y tywyllwch.	Clerc i wenud cais CSYM am ei baentio.	
14.3	Academi bowlio eisiau defnyddio'r Neuadd am 4 nos Lun i ymarfer. Cytunwyd iddynt gael defnydd o'r Neuadd yn rhad ac am ddim.		

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 26 Mawrth 2019 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad